

Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

**Awdur:** Nigel Barwise

**Dyddiad:** 20 Tachwedd 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nigel Barwise**
Dyddiad: **20 Tachwedd 2017**
Rhif Papur: **17-033**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6315**
: **Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
2. Datblygiadau yng Nghymru ........ 1
    - Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 1
    - Newyddion ........ 1
3. Datblygiadau o'r UE ........ 2
    - Y Cyngor Ewropeaidd ........ 2
    - Y Comisiwn Ewropeaidd ........ 2
    - Senedd Ewrop ........ 2
    - Newyddion ........ 2
4. Datblygiadau yn y DU ........ 3
    - Llywodraeth y DU ........ 3
    - Tŷ'r Cyffredin ........ 3
    - Tŷ'r Arglwyddi ........ 5
    - Newyddion ........ 6
5. Yr Alban ........ 6
    - Senedd yr Alban ........ 6
    - Llywodraeth yr Alban ........ 7
6. Gogledd Iwerddon ........ 7
7. Cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon ........ 7
8. Adroddiadau a gyhoeddwyd ........ 7

# 1.Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy’n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae’n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr UE; y DU; yr Alban ac Iwerddon. Y cyfnod a gwmpesir yw rhwng 31 Hydref a 15 Tachwedd, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle y mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

# 2.Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau cysylltiedig â Brexit o ran gwaith y Pwyllgorau.*

Dyma oedd sesiwn ddiweddaraf y Pwyllgor MADY:

– 6 Tachwedd: Cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn sesiwn dystiolaeth ynghylch y goblygiadau i Gymru o benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Cafwyd tystiolaeth gan Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar **Pigion**. Mae'r blogiau Brexit diweddaraf yn canolbwyntio ar Brexit a'r amgylchedd: **Golwg ar sut y mae Pwyllgorau deddfwrfeydd y DU yn paratoi Rhan 2- Senedd yr Alban**; **Rhan 1 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru**; a thri cyhoeddiad arall: **y sector cig coch**; **y Sector Llaeth** a'r **Diwydiant bwyd a diod yng Nghymru**.

### Arall

Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi ei adroddiadau ar **Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru**, a **Dyfodol Polisïau Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru**.

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ystyried y defnydd a wneir o gefnogaeth gan yr UE ac effaith Brexit fel rhan o'i ymchwiliad i **werthu Cymru i'r byd**.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried goblygiadau Brexit mewn perthynas â hawliau dynol fel rhan o'i ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth anffurfiol ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Brexit a hawliau dynol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arbenigwyr o Gomisiwn y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi dechrau adrodd ar yr achosion hynny lle bydd angen i is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gosod gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd gael ei diwygio ar ôl i'r DU adael yr UE. Gellir gweld yr adroddiadau hyn ar **wefan y Pwyllgor**.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi lansio ei **ymchwiliad i'r pwerau ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth**. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 30 Tachwedd 2017.

## Newyddion

2 Tachwedd: **Llywydd NFU Cymru yn rhybuddio yn erbyn senario Brexit heb gytundeb**

2 Tachwedd: **Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i neilltuo arian ar gyfer ffermio yng Nghymru** (NFU Cymru)

6 Tachwedd: Brexit yn gyfle i sicrhau diwydiant ffermio mwy proffidiol (CLA)

9 Tachwedd: Ffermwyr Morgannwg yn trafod dyfodol y diwydiant cig coch (Undeb Amaethwyr Cymru)

# 3.Datblygiadau o'r UE

## Y Cyngor Ewropeaidd

8 Tachwedd: Cynllun buddsoddi ar gyfer Ewrop: Y Cyngor yn cymeradwyo estyniad i'r gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol.

14 Tachwedd: Llythyr o wahoddiad gan yr Arlywydd Donald Tusk i aelodau'r Cyngor Ewropeaidd cyn Trafodaeth Agenda'r Arweinwyr ar addysg a diwylliant .

## Y Comisiwn Ewropeaidd

7 Tachwedd: Y Comisiwn yn cynnig cyfleoedd pysgota yn yr Iwerydd a Môr y Gogledd ar gyfer 2018.

8 Tachwedd: Undeb Ynni: y Comisiwn yn gweithredu i atgyfnerthu arweinyddiaeth fyd-eang yr UE ym maes cerbydau glân.

9 Tachwedd: System Masnachu Allyriadau'r UE: cytundeb nodedig rhwng y Senedd a'r Cyngor yn cyflawni ymrwymiad yr UE i wireddu Cytundeb Paris.

9 Tachwedd: Araith gan Michel Barnier mewn cynhadledd yn Rhufain, sef "Obbligati a crescere – l'Europa dopo Brexit" [Ymrwymiad i sicrhau twf - Ewrop yn dilyn Brexit].

9 Tachwedd: Rhagolwg Economaidd Hydref 2017: twf parhaus mewn cyd-destun polisi sy'n newid.

9 Tachwedd: Adroddiad: Cytundebau masnach yr UE sydd ar waith yn dod â manteision gwirioneddol.

10 Tachwedd: Araith gan Michel Barnier yn dilyn y chweched rownd o drafodaethau ar Erthygl 50 gyda'r Deyrnas Unedig.

## Senedd Ewrop

8 Tachwedd: Brexit: Senedd Ewrop yn amlinellu ei llinellau coch ar y cynigion diweddaraf ynghylch hawliau dinasyddion y DU.

15 Tachwedd: Senedd Ewrop yn canslo cyfarfod â Theresa May Nid yw uwch Aelodau o Senedd Ewrop am aros ym Mrwsel ddydd Gwener i gwrdd â Phrif Weinidog Prydain. (Politico)

## Newyddion

31 Hydref: Deialog Dinasyddion yn Tallinn gyda'r Comisiynydd Günther H. Oettinger – gan gynnwys cyllideb yr UE ar ôl Brexit.

2 Tachwedd: "Myfyrio ar Ewrop" yng Nghyfarfod Partneriaeth Datblygu Rhanbarthol Västernorrland (Pwyllgor y Rhanbarthau)

8 Tachwedd: Llysgenhadon yr UE yn gwyntyllu cysylltiadau yn dilyn Brexit (Euractiv)

8 Tachwedd: Denmarc yn rhybuddio yn erbyn effaith ddifrifol Brexit ar bysgotwyr (Euractiv) Adroddiad (yn Saesneg).

14 Tachwedd: Theresa May i gwrdd ag uwch Aelodau o Senedd Ewrop ar 24 Tachwedd.

# 4.Datblygiadau yn y DU

## Llywodraeth y DU

1 Tachwedd: Cadeiriodd Theresa May, y Prif Weinidog, gyfarfod o uwch weithredwyr sectorau moduro y DU ac Ewrop yn Stryd Downing.

2 Tachwedd: Siaradodd Theresa May, y Prif Weinidog, â Leo Varadkar, y Taoiseach Gwyddelig, am adfer Llywodraeth ddatganoledig Gogledd Iwerddon.

2 Tachwedd: Y Llywodraeth yn cadarnhau ei hymrwymiad i fesurau cadarn i ddiogelu defnyddwyr yn dilyn Brexit.

6 Tachwedd: Araith y Prif Weinidog i gynhadledd y CBI.

6 Tachwedd: Rhaid i bob rhan o Gymru ffynnu yn dilyn Brexit.

7 Tachwedd: David Davis yn Rhufain: 'Ni fydd ein penderfyniad i wynebu'r bygythiadau yr ydym yn eu rhannu yn lleihau'.

8 Tachwedd: Yn Warsaw, yr Ysgrifennydd Brexit yn cadarnhau ymrwymiad y DU i amcanion a rennir.

7 Tachwedd: Rhagor o fanylion yn cael eu darparu ynghylch statws sefydlog newydd ar gyfer dinasyddion yr UE. Statws dinasyddion yr UE yn y DU: y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Hawliau dinasyddion: gweithdrefnau gweinyddol yn y DU.

9-10 Tachwedd: trafodaethau Erthygl 50 rhwng y DU a'r UE: Rhaglen, Sylwadau David Davis wrth gloi.

9-13 Tachwedd: Theresa May, y Prif Weinidog, yn cwrdd ag arweinwyr busnes Ewropeaidd. Cadeiriodd y Prif Weinidog gyfarfod ford gron gydag arweinwyr prif sefydliadau busnes Ewrop.

10 Tachwedd: Y Prif Weinidog yn cael galwadau ffôn gydag arweinwyr y DUP a Sinn Fein.

13 Tachwedd: Araith y Prif Weinidog i Wledd yr Arglwydd Faer 2017.

14 Tachwedd: Y Prif Weinidog yn cwrdd â Nicola Sturgeon.

## Tŷ'r Cyffredin

Rhestr o'r gwelliannau a gafwyd hyd yma i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

1 Tachwedd: Cyfres o gwestiynau ar Brexit yn ystod y sesiwn Cwestiynau Cymreig, a atebwyd gan Alun Cairns a Guto Bebb.

1 Tachwedd: Dadl ar gyhoeddi'r Asesiadau effaith sectoraidd mewn perthynas ag ymadael â'r UE.

2 Tachwedd: Cyfres o gwestiynau ar Brexit , a atebwyd gan Robin Walker, David Davis a Steve Baker.

6 Tachwedd: Cafodd cynnig Stephen Kinnock ynghylch dadl ar aelodaeth y DU o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ei gymeradwyo.

7 Tachwedd: Dadl ar gyhoeddi Dadansoddiadau Sectoraidd mewn perthynas â Brexit.

13 Tachwedd: Gwnaeth David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, ddatganiad am y trafodaethau ynghylch gadael yr UE, ac atebodd gwestiynau.

14 Tachwedd: Dadl ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Gwrthodwyd gwelliant a oedd yn gofyn am ganiatâd y deddfwrfeydd datganoledig ar gyfer Brexit.

Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiant: Goblygiadau Brexit ar gyfer y diwydiant niwclear. Tystiolaeth a gyhoeddwyd gan **Gymdeithas y Diwydiant Niwclear** ac **EDF Energy** - 1 Tachwedd. **Ymateb y Llywodraeth** i adroddiad y Pwyllgor, **Gadael yr UE: blaenoriaethau negodi o ran polisi ynni a newid hinsawdd** - 6 Tachwedd. Sesiwn dystiolaeth ar **effaith Brexit ar y diwydiant ceir** – 14 Tachwedd, **tystiolaeth ysgrifenedig** wedi'i chyhoeddi.

Cyfansoddiad: Holwyd cyn-Lywydd yr Uchel Lys ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) **Trawsgrifiad** - 1 Tachwedd.

Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: **sesiwn dystiolaeth ar Brexit: masnach mewn bwyd**. **Trawsgrifiad**. **Tystiolaeth ysgrifenedig** hefyd wedi'i chyhoeddi. Erthygl Politico: **Ffermwyr da byw yn rhybuddio ASau y bydd dyfodol llwm yn dilyn Brexit caled** - 1 Tachwedd. **Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth arall** ar 15 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi tystiolaeth gan **Undeb Amaethwyr Cymru**, ynghyd â **llythyr dyddiedig 12 Hydref gan Michael Gove AS at y Cadeirydd ynghylch ymrwymiadau'r dyfodol mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd**, ac **ymateb y Cadeirydd**. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ar 15 Tachwedd gyda **chynrychiolwyr y diwydiant pysgota yn y DU**.

Ymadael â'r UE: **Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch asesiadau effaith Brexit** - 2 Tachwedd. **Ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cadeirydd** – 3 Tachwedd.

Materion Tramor: **Dyfodol perthynas ddiplomyddol Prydain gydag Ewrop** - 31 Hydref. **Trawsgrifiad o dystiolaeth yr Ysgrifennydd Tramor,** 1 Tachwedd. **Trawsgrifiad** o drafodion **7 Tachwedd**.

Materion Cartref: **Creu consensws ynghylch y polisi mewnfudo** - 31 Hydref. Adroddiad, **Y Swyddfa Gartref yn gweithredu Brexit: gweithrediadau tollau**, a gyhoeddwyd ar 16 Tachwedd. **Y Swyddfa Gartref yn gweithredu Brexit: mewnfudo** – 21 Tachwedd, a **thrawsgrifiad 10 Tachwedd**.

Masnach Ryngwladol: **Ymchwiliad i gymhwyso cytundebau masnach yr UE yn barhaus ar ôl Brexit** wedi'i lansio ar 31 Hydref. Holwyd yr **Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, Liam Fox**, ar waith yr adran ar 1 Tachwedd. **Trawsgrifiad**. Sesiwn dystiolaeth ar **gymhwyso cytundebau masnach yr UE yn barhaus** - 15 Tachwedd.

Trysorlys: **Perthynas economaidd y DU â'r Undeb Ewropeaidd**: **Trawsgrifiad** - 1 Tachwedd. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth arall ar 15 Tachwedd.

Materion Cymreig: **Y Cadeirydd yn ysgrifennu at Damian Green yn gofyn am Brexit a'r goblygiadau i Gymru**. **Testun y llythyr**.

30 Hydref: y Pwyllgor Trafnidiaeth: Sesiwn dystiolaeth ar hedfan a Brexit. **Trawsgrifiad**.

31 Hydref: Clywodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol gan **ddau o arbenigwyr academaidd blaenllaw'r DU ym maes cyfraith gyhoeddus fel rhan o'r ymchwiliad i ddatganoli a gadael yr UE**. **Trawsgrifiad**.

1 Tachwedd: Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon **yn ystyried y Swistir a Norwy fel rhan o'i ymchwiliad i faterion yn ymwneud â'r ffin**. **Trawsgrifiad**. Sesiwn dystiolaeth gyda **thystion o Gibraltar** – 15 Tachwedd.

2 Tachwedd: **Mae'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol yn craffu ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**.

6 Tachwedd: Y Pwyllgor Gweithdrefnau yn **galw am sefydlu pwyllgor sifftio "newydd ac effeithiol"** i benderfynu pa ddarnau arfaethedig o ddeddfwriaeth ddirprwyedig y bydd angen i ASau graffu arnynt yn fanwl wrth i gyfraith yr UE gael ei throsglwyddo i gyfraith y DU.

7 Tachwedd: Clywodd y Pwyllgor Iechyd dystiolaeth ar y **gweithlu nyrsio**.

14 Tachwedd: **Anghenion mewnfudo'r Alban yn y dyfodol** yn cael eu trafod gan Bwyllgor Materion yr Alban

14 Tachwedd: **Trychineb os nad oes system dollau ymarferol yn ei le ar gyfer Brexit** – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. **Adroddiad**.

15 Tachwedd: Ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin at Ganghellor y Trysorlys, yn gwneud cais bod y DU yn parhau i fod yn rhan o **raglen ymchwil Horizon-2020**.

## Tŷ'r Arglwyddi

31 Hydref: Cwestiynau ynglŷn ag aelodaeth y DU o **Fanc Buddsoddi Ewrop** a'r manteision sy'n deillio o'r aelodaeth honno.

2 Tachwedd: Cwestiynau ynghylch cyhoeddi **asesiadau effaith sectoraidd mewn perthynas â Brexit**.

6 Tachwedd: Cwestiynau ar **ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd**, **Dulliau Ffermio Di-gemegol a Brexit**, **cymorth i ffermydd yn dilyn Brexit**, **a phatrolio parth economaidd unigryw y DU a'r moroedd tiriogaethol yn dilyn Brexit**.

7 Tachwedd: Ailadrodd y datganiad ar **Brexit: asesiadau effaith sectoraidd**, a chwestiynau.

13 Tachwedd: Cwestiynau ar **Brexit: y setliad ariannol**.

13 Tachwedd: Ailadrodd datganiad David Davis ar **y trafodaethau ynghylch ymadael â'r UE**, ac yna cwestiynau.

14 Tachwedd: Cwestiynau ar **Brexit: prisiau bwyd**.

### Pwyllgorau

Pwyllgor Dethol yr UE: **Rhoddodd David Davis a'r Arglwydd Darling dystiolaeth ar Brexit a gadael yr UE heb gytundeb**. **Trawsgrifiad o dystiolaeth David Davis**. **Trawsgrifiad o dystiolaeth yr Arglwydd Darling**. **Llythyr at David Davis gyda chwestiynau dilynol** - 31 Hydref. Sesiwn dystiolaeth gyda'r CBI a'r TUC **Trawsgrifiad** - 7 Tachwedd. Llythyr gan yr Arglwydd Callanan am yr **asesiadau effaith mewn perthynas â Brexit** - 7 Tachwedd

Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE: Llythyr at yr Arglwydd Callanan ar **drefniadau'r system dollau ar gyfer y dyfodol - papur ar bartneriaeth y dyfodol** - 31 Hydref. Llythyr at David Davis ynghylch ymateb y Llywodraeth i adroddiad Pwyllgor yr UE - **Brexit: masnachu mewn nwyddau** – 2 Tachwedd.

Is-Bwyllgor Cyfiawnder yr UE: **Hawliau dinasyddion yn dilyn Brexit**, **Trawsgrifiad** - 31 Hydref.

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE: **Gwrandawiad ar y drefn reoleiddio ariannol gyda Banc Lloegr**, **Trawsgrifiad** - 1 Tachwedd. **Llythyr i'r Canghellor - sicrhau cyfnod pontio ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol yn fater brys** - 8 Tachwedd. Sesiwn dystiolaeth ar y drefn reoleiddio a goruchwylio ariannol yn dilyn Brexit – 15 Tachwedd.

1 Tachwedd: Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE: **Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd** yn cael ei holi ynghylch effaith Brexit. **Trawsgrifiad**.

Is-bwyllgor Materion Cartref yr Undeb Ewropeaidd: **Gofal iechyd cyfatebol yn dilyn Brexit** - 1 Tachwedd, ac eto ar 15 Tachwedd - **gofal iechyd cyfatebol yn dilyn Brexit**, ac yna, **gofal iechyd cyfatebol yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn dilyn Brexit**.

Is-bwyllgor Marchnad Mewnol yr UE: **Rhoddodd y Gweinidog Busnesau Bach dystiolaeth i'r ymchwiliad i gystadleuaeth mewn perthynas â Brexit**. **Trawsgrifiad** - 2 Tachwedd.

Materion Economaidd: Cyhoeddwyd **ymateb y Llywodraeth** i'r adroddiad: **Brexit a'r Farchnad Lafur** - 1 Tachwedd.

### Newyddion

2 Tachwedd: Seminar amser cinio gan y Swyddfa Economeg Iechyd: **Sector Biotech y DU a Brexit**: Perfformiad blaenorol a rhagolygon y dyfodol.

6 Tachwedd: **Bydd busnesau'n dechrau symud swyddi ar draws y Sianel erbyn mis Mawrth oni bai bod trefniant pontio yn cael ei gytuno ar gyfer Brexit, meddai'r CBI wrth Theresa May** (*The Telegraph*)

6 Tachwedd: **Busnesau'r UE yn dweud hwyl fawr i gyflenwyr y DU wrth i Brexit amharu ar gysylltiadau allweddol** (y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi)

10 Tachwedd: **Y Communiqué ar gyfer 29fed Cynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**.

13 Tachwedd: **Arweinwyr busnes yr UE yn pwyso ar Theresa May i sicrhau cytundeb Brexit** (BBC)

13 Tachwedd: Wrth siarad yn un o gynadleddau'r CBI, **llysgennad Siapan yn rhybuddio y gallai ansicrwydd ynghylch Brexit ddarbwyllo cwmnïau i fuddsoddi mewn mannau eraill** (Chronicle Live)

15 Tachwedd: Ffederasiwn y Busnesau Bach yn dweud **na fydd pwerdy'r gogledd yn bodoli oni bai bod cyllid yn dod i'r rhanbarth yn lle cyllid yr UE** (Chronicle Live)

15 Tachwedd: **Manfred Weber: May yn gwybod y bydd Brexit yn achosi difrod**. Roedd arweinydd y dde-canol yn Senedd Ewrop yn fwy cadarnhaol wrth adael ei gyfarfod gyda Phrif Weinidog Prydain nag yr oedd pan aeth i mewn. (Politico)

15 Tachwedd: **Pobl o'r DU a phobl nad ydynt o'r DU yn y farchnad lafur: Tachwedd 2017**. Amcangyfrifon o weithgarwch yn y farchnad lafur yn ôl cenedligrwydd a gwlad geni (ONS). **Gwelwyd y nifer uchaf erioed o weithwyr yr UE yn y DU yn dilyn y bleidlais ar Brexit**. Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd penodol yn nifer y bobl o Fwlgaria a Romania. (Politico)

# 5.Yr Alban

### Senedd yr Alban

Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Brexit o Senedd yr Alban: **1 Tachwedd**, **8 Tachwedd**.

2 Tachwedd: Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol: Tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd (Negotiaethau) **Sesiwn dystiolaeth gyda David Mundell AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban**.

8 Tachwedd: Y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Sesiwn dystiolaeth gyda David Mundell, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, a Robin Walker, Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

8 Tachwedd: Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith: Sesiwn dystiolaeth gyda Robin Walker, Is-ysgrifennydd Seneddol yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a Chris Skidmore, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad.

### Llywodraeth yr Alban

1 Tachwedd: Rhaid rhannu'r gwaith dadansoddi ar Brexit.

6 Tachwedd: Trafodaethau Brexit—"Ni fyddwn yn llofnodi siec gwag".

8 Tachwedd: Manteision mudo - y cyfraniad cadarnhaol a wneir gan weithwyr yr UE i'r economi.

10 Tachwedd: Trafodaethau Brexit - Angen eglurder wrth ymadael â'r UE.

12 Tachwedd: Y gogledd ar i fyny - yr Alban i gynnal uwchgynhadledd ar rhanbarth yr Arctig.

13 Tachwedd: Rhaid i gyllideb y DU gefnogi twf economaidd - galwad am fesurau i liniaru bygythiadau Brexit.

# 6.Gogledd Iwerddon

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi EU Matters: BREXIT Negotiation Focus, sy'n cynnwys crynodeb o safbwyntiau negodi Llywodraeth y DU, y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

# 7.Cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon

2 Tachwedd: Mae Taoiseach Iwerddon a Phrif Weinidog Prydain wedi siarad dros y ffôn am y sefyllfa wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon.

2 Tachwedd: Gweinidog Tramor Iwerddon yn dweud na fydd cyflawni addewidion Brexit yn bosibl (Sky News)

6 Tachwedd: Gweinidog Tramor Iwerddon: Cynnydd wedi'i wneud ond nid yw'n ddigon (Darn barn yn yr Evening Echo)

8 Tachwedd: Dadl yn y Dāl: Gwnaeth y Taoiseach ddatganiad am gyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 19-20 Hydref, ac yna atebodd gwestiynau.

10 Tachwedd: Heddiw, mae Leo Varadkar, y Taoiseach, yn mynd i'w Uwchgynhadledd gyntaf o'r Cyngor Prydeinig Gwyddelig ar Ynys Jersey.

# 8.Adroddiadau a gyhoeddwyd

Goblygiadau Brexit mewn perthynas â diwygio amaethyddol yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd a'r byd yn ei gyfanrwydd yn ystod y degawd nesaf (y Sefydliad Brenhinol Materion Rhyngwladol)

Y rhesymau pam ddylai'r gwledydd datganoledig gefnogi fformiwla Barnett ar gyfer arian Brexit (y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

A oedd busnesau Prydain yn bwriadu gadael yr UE? (LSE Brexit)

Bod yn ifanc ym Mhrydain Brexit - Y Sefydliad Ewropeaidd a Chanolfan UCL ar gyfer Ieuenctid y Byd.

**Er na fydd Prydain yn ailymuno ag ardal masnach rydd Ewrop, gall ddysgu llawer o'i brofiad** (LSE Brexit)

**Bydd deall cymhellion y rhai a bleidleisiodd i adael yr UE yn chwarae rhan bwysig wrth bennu dyfodol globaleiddio** (LSE Brexit)

**"Brexit caled neu ddim Brexit o gwbl?" Dyna'r cwestiwn** (Brendan Donnelly (cyn ASE) yn y Federal Trust)

**Mewn cyfyng-gyngor – sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn cynllunio ar gyfer Brexit?** (Blogiau Brexit o Gymru)

**A fydd unrhyw beth yn newid yn ystod y cyfnod pontio?** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Pam mae angen Brexit modern arnom** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Ni all Llundain ddod o hyd i holl 'atebion' Brexit ar ei phen ei hun** (Darn barn gan Ashley Fox ASE, EUObserver)

**Mae Prydain Brexit yn twyllo ei hun am fewnfudo** (Politico)

**Natur y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Polisi masnach y DU yn dilyn Brexit: dim ond rhestr o ddymuniadau ydyw o hyd** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Yn yml y dibyn neu'n pontio'r bwlch?** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Pam mae pobl gwyn yn y dosbarth gweithiol yn parhau i gael eu dal yn gyfrifol am Brexit a Trump?** (LSE Brexit)

'Rhaid llyncu'r cwbl a'i lyncu nawr': **Mae Prydain yn parhau i dwyllo ei hun ynghylch ei bŵer negodi gyda'r UE** (LSE Brexit)

**Beth sydd wedi ysgogi ASau Ceidwadol i gefnogi neu wrthwynebu Brexit?** (LSE Brexit)

**Efallai nad ydych yn hoff o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Ond, os ydych am wireddu Brexit, dyma'r unig opsiwn sydd ar gael** (Y DU mewn Ewrop sy'n Newid)

**Pam mae Prydain (fel rheol) yn ufuddhau i Lys Hawliau Dynol Ewrop** (LSE Brexit)

**Beth sy'n gwneud Prydain yn 'Fawr'? Diwedd y consensws ôl-ryfel ynghylch rhyngwladoliaeth ryddfrydol** (LSE Brexit)